

ADRAN 8. CASGLIAD

8.1 Sut y mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Datblygwyd y ddyletswydd gonestrwydd gyda rhanddeiliaid ar draws GIG Cymru a'r DU, ee cyrff GIG, Colegau Brenhinol, Grwpiau Cyngori, rhwydweithiau proffesiynol, Comisiynwyr, grwpiau cleifion, sefydliadau'r trydydd sector, gweinyddiaethau datganoledig, a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Mae cynrychiolwyr GIG Cymru yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredu a'r Bwrdd Goruchwylio Strategol.

Cynhaliwyd grŵp ffocws rhithwir i ymgysylltu â chleifion a'u cynrychiolwyr gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig ee grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a grwpiau anabledd dysgu. Rhoddodd y grŵp gysylltiadau ychwanegol drwy eu cymheiriaid a'u rhwydweithiau, a fu'n fodd i ymgysylltu'n ehangach ar yr ymgynghoriad.

Roedd yr holl randdeiliaid yn glir yn eu cefnogaeth i ddyletswydd gonestrwydd sefydliadol a hyrwyddo'r egwyddorion o fod yn agored a thryloyw.

Cynhaliodd Plant yng Nghymru grŵp ffocws bychan gyda phobl ifanc i drafod rhai agweddau ar y ddyletswydd. Roedd Plant yng Nghymru yn teimlo fod hwn yn bwnc cymhleth i blant a phobl ifanc ei ddeall yn llawn. Fe wnaethant gytuno i ddull gweithredu mwy drwy roi adborth ar adran plant a phobl ifanc y canllawiau i staff a thaflen ymwybyddiaeth yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Yn ogystal, roedd rheoliadau a chanllawiau statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos a hysbysebwyd i'r holl randdeiliaid a'r cyhoedd ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn ystod y broses ymgynghori hon cafwyd 135 ffurflen ymateb wedi'i llenwi, ynghyd â mwy nag 800 o sylwadau gan amrywiaeth o randdeiliaid.

8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Mae'r ddyletswydd yn adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i wneud i ddatblygu a chefnogi'r diwylliant o fod yn agored yn y GIG yng Nghymru, megis yr egwyddor Bod yn Agored yn y broses Gweithio i Wella. Bydd y ddyletswydd yn cefnogi'r cleifion hynny sydd wedi dioddef mwy nag ychydig o niwed oherwydd digwyddiad. Gall y niwed canlyniadol arwain at amser adfer hirach, triniaeth ychwanegol, cymhlethodau iechyd pellach, cyflyrau sy'n newid bywydau neu mewn achosion eithafol, marwolaeth. Nod y cynnig yw sicrhau proses gyson pan sbardunir y ddyletswydd, i sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn cael eu trin mewn modd agored, gonest, a chyfartal.

Sail y ddyletswydd yw hyrwyddo diwylliant o fod yn agored a gonest sy'n cael ei gysylltu'n eang â gofal o ansawdd da. Pan fydd y ddyletswydd yn cael ei sbarduno,

bydd staff yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso o fewn eu sefydliadau i fod yn agored gyda chleifion, i ymddiheuro ac i egluro'r camau fydd yn cael eu cymryd i ymchwilio i'r digwyddiad. Bydd hyn yn cryfhau perthynas a gwaith cyfathrebu'r corff GIG gyda'i gleifion a'r gymuned, gan arwain at fwy o ymddiriedaeth yn y gwasanaeth iechyd, gostyngiad tebygol mewn ymgyfreitha yn erbyn y GIG a gwell profiad cleifion pan fydd pobl yn mynd drwy ddigwyddiadau sydd angen gonestrwydd.

Mae'n annog dysgu sefydliadol i helpu i leihau digwyddiadau a niwed y gellir ei osgoi i gleifion. Yn y modd hwn mae'r cynnig yn bodloni amcan y Rhaglen Lywodraethu o ddarparu *gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel*. Bydd gofyn i gyrff GIG adrodd yn flynyddol ar gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd a chyhoeddi eu hadroddiadau. Bydd angen i'r adroddiadau nodi camau a gymerwyd i atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

Mae'r cynnig yn cefnogi gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd gan felly fodloni'r nodau llesiant *Cymru Iachach a Cymru Fwy Cyfartal* yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y ddyletswydd o fudd i bobl ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol sy'n fwy tebygol o fynd yn sâl ac o fod â chyflyrau iechyd isorweddol, er enghraifft pobl o gefndiroedd difreintiedig, pobl hŷn a phobl ag anabledau. Mae'r grwpiau hyn yn debygol o gael mynediad at ofal iechyd y GIG yn amlach ac felly nhw sydd â'r mwyaf i'w ennill o'r cynnig.

Yn y tymor hir, bydd effaith gadarnhaol gwella cyfathrebu gonest a thryloyw rhwng y GIG a defnyddwyr gwasanaethau, yn y tymor hir, yn ennyn mwy o hyder yng ngwasanaethau'r GIG. Bydd y diwylliant agored yn annog dysgu a gwella yn y GIG ac yn y tymor hir yn lleihau nifer yr achosion o niwed y gellir ei osgoi, gan arwain at lai o gwynion ac ymgyfreitha gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

Un effaith negyddol y gellir ei gweld yn y tymor byr yw cynnydd yn nifer y digwyddiadau i ymchwilio iddynt drwy'r broses Gweithio i Wella pan fydd y ddyletswydd yn cael ei sbarduno. Gallai hyn effeithio ar adnoddau'r GIG sydd ar gael i brosesu ac ymchwilio i achosion, yn enwedig ym maes gofal sylfaenol. Fodd bynnag, teimlir mai effaith yn y tymor byr i'r tymor canolig fydd hon, nes bod y GIG yn meithrin dealltwriaeth a hyder yn y broses.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r cynnig yn bodloni'r nodau *Cymru Iachach a Cymru Fwy Cyfartal* yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gefnogi camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae'r rhai sy'n rhyngweithio mwy â gwasanaethau gofal iechyd yn fwy

tebygol o elwa ar y ddyletswydd. Bydd y ddyletswydd yn hybu cydraddoldeb i'r grŵp hwn o bobl, er enghraifft pobl anabl, cyflyrau iechyd hirdymor, yr henoed a phobl feichiog. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru¹ yn darparu tystiolaeth bod pobl hŷn, menywod, y rheini sydd â iechyd gwaelach neu gyflwr hirdymor yn fwy tebygol o gael mynediad at ofal iechyd na sectorau eraill o'r boblogaeth.

Gall gweithredu'r ddyletswydd gonestrwydd gael ei effeithio gan oblygiadau COVID-19 ar y GIG, er enghraifft, y cynnydd canlyniadol mewn rhestrau aros. Mae'r cynnig yn ceisio lliniaru hyn drwy nodi y gallai niwed tra mae rhywun ar restr aros sbarduno'r ddyletswydd o bosibl, y ond byddai'n rhaid i'r defnyddiwr gwasanath fod wedi dioddef niwed annisgwyl neu anfwriadol. Ni fyddai dirywiad yn ei gyflwr tra bo ar restr aros yn annisgwyl. Fodd bynnag, pe bai'r rhestr aros yn cael ei rheoli'n anghywir a bod defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei golli o'r rhestr a'r oedi'n arwain at niwed, yna byddai'r ddyletswydd yn berthnasol gan y byddai'r niwed yn annisgwyl.

Gallai tanariannu'r GIG a'r argyfwng gweithlu ychwanegu mwy o bwysau ar y GIG, a allai arwain at restrau aros hirach. Gallai'r argyfwng costau byw gael effaith andwyol ar iechyd y boblogaeth a'r gweithlu ac ychwanegu pwysau ar y GIG.

Mae'n bosibl y teimlir effaith negyddol gymedrol yn y tymor byr gan staff y GIG gyda chynnydd posibl yn nifer y digwyddiadau i ymchwilio iddynt drwy'r broses Gweithio i Wella o ganlyniad i sbarduno'r ddyletswydd. Bydd hyn yn effeithio ar adnoddau'r GIG sydd ar gael i brosesu ac ymchwilio i achosion ac efallai y bydd yn cael mwy o effaith ar gontractwyr gofal sylfaenol nad ydynt ar hyn o bryd yn rhoi gwybod am ddiwyddiadau diogelwch cleifion i'r un radd â darparwyr gofal eilaidd. Rhagwelir y bydd hyn yn effaith tymor byr i ganolig hyd nes i staff y GIG feithrin dealltwriaeth a hyder yn y broses. Gellir cyflwyno gwrth-ddadl trwy gyfeirio at ymchwil a gynhaliwyd gan West, M a Coia, D² (2019) i Sefydliad GIG Mersey Care sy'n awgrymu bod diwylliant cyfiawn sy'n dysgu yn arwain at "...reduced time to conduct an investigation and reduced legal and termination costs."

Effaith negyddol gysylltiedig yn y tymor byr fyddai pryder gan staff am yr angen i gael sgyrsiau anodd gyda chleifion, ond bydd hyn yn cael ei liniaru wrth gyflwyno hyfforddiant, dealltwriaeth a hyder yn y broses. Rhagwelir yn y tymor hir y bydd gostyngiad yn nifer y digwyddiadau o ganlyniad i ddysgu lleol a chenedlaethol.

8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

¹ Welsh Government. National Survey for Wales. Available at: [Hospital and GP services \(National Survey for Wales\): April 2021 to March 2022 | GOV.WALES](#)

² West, M., Coia, D., (2019) [caring-for-doctors-caring-for-patients_pdf-80706341.pdf \(gmc-uk.org\)](#)

Bydd achos o sbarduno'r ddyletswydd yn cael ei gofnodi mewn systemau rheoli risg megis Datix Cymru. Dan y ddyletswydd, bydd rhaid i gyrrff y GIG adrodd yn flynyddol ar gydymffurfio â'r ddyletswydd a chyhoeddi eu hadroddiadau. Bydd byrddau iechyd yn casglu gwybodaeth gan ddarparwyr gofal sylfaenol i'w cynnwys mewn adroddiadau fydd yn nodi pa mor aml y sbardunwyd y ddyletswydd, yr amgylchiadau, a'r camau a gymerwyd i atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

Nid yw sbarduno'r ddyletswydd yn cael ei gofnodi yn GIG Lloegr na GIG yr Alban felly ni fydd modd cymharu â data GIG Cymru. Bydd cymhariaeth yn cael ei gwneud gyda nifer y digwyddiadau diogelwch cleifion a adroddir cyn gweithredu'r ddyletswydd a'r rhai a adroddwyd ar ôl ei gweithredu.

Yn y tymor canolig, disgwylir y bydd y ddyletswydd yn arwain at well dealltwriaeth ledled GIG Cymru o faterion sy'n arwain at niwed y gellir ei osgoi ac y bydd staff perthnasol yn teimlo bod ganddynt y grym i wneud gwelliannau i fynd i'r afael â'r materion hyn. Byddem hefyd yn disgwyl gweld gostyngiad yn nifer yr achosion lle mae niwed cymedrol neu ddifrifol y gellir ei osgoi, ac yn y tymor hir, llai o gwynion a llai ymgyfreitha gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

Bydd gwerthusiad o Ddeddf Iechyd ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 sy'n cynnwys y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei gynnal dros gyfnod o 5 mlynedd.